Ffurflen R1

Y Comisiwn Etholiadol

# Hysbysiad o benodi unigolyn cyfrifol gan gymdeithas o aelodau heb drysorydd

## Pryd i lenwi'r ffurflen hon

Dylech lenwi'r ffurflen hon i benodi unigolyn cyfrifol pan nad oes gan eich cymdeithas o aelodau drysorydd.

**Sylwer:** Peidiwch â llenwi'r ffurflen hon os ydych eisoes wedi penodi unigolyn cyfrifol.

Mae'r penderfyniad i benodi unigolyn cyfrifol yn un gwirfoddol oni bai:

- eich bod wedi derbyn cyfraniad neu fenthyciad caniataol y dylid rhoi adroddiad amdano, sy'n gyfraniad neu fenthyciad o fwy na £11,180
- eich bod wedi derbyn cyfraniad neu fenthyciad o fwy na £500 o ffynhonnell nas caniateir

Bydd yr hysbysiad hwn mewn grym o'r dyddiad y byddwn yn ei dderbyn. Sylwer y bydd yn dod i ben **12 mis** ar ôl dyddiad ei dderbyn. Byddwn yn eich atgoffa i adnewyddu'r hysbysiad hwn un mis cyn y bydd yn dod i ben.

**Mae'r wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn cael ei chadw ar gyfer ein cofnodion ac nid yw'n cael ei hychwanegu at unrhyw gofrestri cyhoeddus.**

**Pwysig:** mae'n rhaid i chi benodi unigolyn cyfrifol **cyn pen 30 diwrnod** o dderbyn cyfraniad neu fenthyciad y dylid rhoi adroddiad amdano.

## Llenwi ac anfon y ffurflen atom ni

Gallwch deipio yn uniongyrchol ar y ffurflen a'i hargraffu i'w llofnodi a'i dychwelyd atom ni. Neu, gallwch argraffu'r ffurflen, ei llenwi â llaw a'i dychwelyd atom ni.

**Peidiwch â chyflwyno'r ffurflen hon yn electronig**. Rhaid cael llofnod ar y ffurflen oherwydd mae'n cynnwys datganiad felly gallwch naill ai ei **phostio** neu ei **ffacsio** atom ni.

Gweler yr adran **Diffiniadau** ar ddiwedd y ddogfen hon am esboniad o'r termau a ddefnyddir yn y ffurflen hon.

# Nodiadau esboniadol

## Adran 1 – Manylion y gymdeithas o aelodau

Rhowch enw llawn a chyfeiriad y gymdeithas o aelodau.

## Adran 2 – Manylion yr unigolyn cyfrifol

Rhowch enw llawn a chyfeiriad yr unigolyn sydd i gael ei benodi yn unigolyn cyfrifol.

## Adran 3 – Datganiad a llofnodion

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi a'i ddyddio gan yr unigolyn cyfrifol i gael ei benodi.

Rhaid i'r ffurflen hon hefyd gael ei llofnodi ar ran y gymdeithas o aelodau yn cadarnhau penodiad yr unigolyn cyfrifol.

Byddwch yn gwneud datganiad pan fyddwch yn llofnodi'r ffurflen hon. Dylech fod yn hollol ymwybodol o'r cyfrifoldebau a ddaw gyda'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth gweler www.electoralcommission.org.uk/cy/canllawiau-i-sefydliadau-a-reoleiddir.

Dychwelwch y ffurflen hon trwy'r **post** neu **ffacs** at:

Cylliad Pleidiau ac Etholiadol
Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ

Ffôn: 020 7271 0616
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: pef@electoralcommission.org.uk
Y We: www.electoralcommission.org.uk

Byddwn yn cydnabod pob hysbysiad o benodi.

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol:

Y Comisiwn Etholiadol

Ffurflen R1

# Hysbysiad o benodi unigolyn cyfrifol gan gymdeithas o aelodau heb drysorydd

## Adran 1: Manylion y gymdeithas o aelodau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r gymdeithas o aelodau | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| Tref | | Cod post | |
| Rhif ffôn* | | | |
| Cyfeiriad e-bost* | | | |

* Mae'r wybodaeth hon yn ddewisol.

## Adran 2: Manylion yr unigolyn cyfrifol sydd i gael ei benodi

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw'r unigolyn cyfrifol | | | |
| Cyfeiriad | | | |
| Tref | | Cod post | |
| Rhif ffôn* | | | |
| Cyfeiriad E-bost* | | | |

* Mae'r wybodaeth hon yn ddewisol

## Adran 3: Datganiad a llofnodion

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnodwyd ar ran y gymdeithas o aelodau | | | |
| Enw'r unigolyn sy'n llofnodi ar ran y gymdeithas o aelodau | | Dyddiad | |

**Rwyf yn datgan fy mod wedi derbyn y swydd o unigolyn cyfrifol yng nghyswllt rhoi adroddiad ar gyfraniadau a benthyciadau. Ymrwymir i'r hysbysiad hwn yn unol ag Atodlen 7 a 7A o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000.**

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan yr unigolyn cyfrifol | |

| | |
|---|---|
| Enw wedi ei brintio | |
| Dyddiad | |

**At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad derbyn | | Gwiriwyd gan | |
| Dyddiad cofnodi ar y gronfa ddata | | Rhif cyfeirio'r ffeil | |

## Diffiniadau

Sut y mae'r termau a ddefnyddir yn yr hysbysiad o benodi hwn yn cael eu diffinio yn gyfreithiol.

### Unigolyn cyfrifol

Unigolyn a benodwyd gan gymdeithas o aelodau heb drysorydd i fod yn gyfrifol am reoli a rhoi adroddiad am gyfraniadau a benthyciadau a reolir.

### Cymdeithas o aelodau

Cymdeithas sy'n cynnwys aelodau plaid yn bennaf neu yn gyfan gwbl.

### Cyfraniad

- unrhyw rodd i'r gymdeithas boed yn arian neu eiddo
- unrhyw nawdd a ddarperir i'r gymdeithas berthnasol
- unrhyw danysgrifiad neu ffi arall a dalwyd am ymgysylltu, neu aelodaeth dros y gymdeithas
- unrhyw arian a wariwyd wrth dalu treuliau a dynnwyd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y gymdeithas
- darparu – heblaw ar amodau masnachol – unrhyw wasanaethau eiddo neu gyfleusterau ar gyfer defnydd neu fudd y gymdeithas (gan gynnwys gwasanaeth unigolyn))

### Benthyciadau

Benthyciad, cyfleuster credyd neu warant neu sicrwydd a roddir i ddeiliad swydd etholedig berthnasol, er enghraifft:

- morgais sy'n ddyledus i fanc ar swyddfa etholaethol Aelod o Senedd yr Alban
- benthyciad arian parod gan gefnogwr i blaid i dalu am ymgyrch aelod o'r blaid i ddod yn arweinydd
- cyfleuster credyd a estynnwyd i ddeiliad swydd etholedig berthnasol, fel gorddrafft banc neu gerdyn credyd yn gysylltiedig â'i weithgareddau gwleidyddol

### Cyfraniad caniataol

- trafodyn a dderbyniwyd gan gyfrannwr caniataol sy'n werth mwy na £11,180

Cyfraniad nas caniateir

- trafodyn a dderbyniwyd gan gyfrannwr nas caniateir o werth mwy na £500

Cyfrannwr caniataol

- unigolyn a gofrestrwyd ar gofrestr etholwyr yn y Deyrnas Unedig (gan gynnwys cymynroddion)
- cwmni a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sydd wedi ei ymgorffori yn y Deyrnas Unedig ac yn gweithredu ei fusnes yn y Deyrnas Unedig
- plaid wleidyddol a gofrestrwyd ym Mhrydain Fawr
- undeb llafur a gofrestrwyd
- cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd
- partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithredu ei busnes yn y Deyrnas Unedig
- cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y Deyrnas Unedig
- cymdeithas anghorfforedig o'r Deyrnas Unedig sy'n gweithredu busnes neu weithgareddau eraill yn y Deyrnas Unedig
- rhai mathau o ymddiriedolaethau

Cyfrannwr nas caniateir

- cyfrannwr nad yw'n dod dan unrhyw gategori o gyfranwyr caniataol uchod, neu gan ffynhonnell na ellir ei hadnabod (e.e. trafodyn a roddwyd yn ddienw o werth mwy na £500)

**Sylwer**: Gallwch dderbyn cyfraniadau gan unigolion neu sefydliadau nad ydynt yn gyfranwyr caniataol ar yr amod mai diben y cyfraniad yw talu am gostau rhesymol ymweliad tramor.

## Ble allaf gael rhagor o gyngor?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am reoli neu roi adroddiad am gyfraniadau neu fenthyciadau, cysylltwch â ni am ragor o gyngor.

**Gallwch gael rhagor o gyngor gan:**

Cyllid Pleidiau ac Etholiadau
Y Comisiwn Etholiadau
3 Bunhill Row
Llundain EC1Y 8YZ